

Mrs N Pryddech
Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli
Cylch Meithrin Tremeirchion
Tremeirchion
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0UN

10 Awst 2012

Annwyl Mrs Pryddech

Lleoliadau y mae angen iddynt gael eu monitro gan Estyn yn dilyn arolygiad – Cylch Meithrin Tremeirchion

Fel y gwyddoch, fe wnaeth Glyn Roberts, AY ac Eirwen Vogler, swyddog yr awdurdod lleol, ymweld â'r lleoliad yn ddiweddar er mwyn monitro'r cynnydd a wnaed ers yr arolygiad ym mis Tachwedd 2010 a'r ymweliad monitro dilynol ym Ionawr 2012.

Canlyniad yr ymweliad monitro

Bernir bod Cylch Meithrin Tremeirchion wedi gwneud cynnydd da o ran y materion allweddol ar gyfer gweithredu yn dilyn ymweliad Estyn ym mis Tachwedd 2010. Byddwn yn awr yn tynnu enw'r lleoliad oddi ar y rhestr o leoliadau y mae angen iddynt gael eu monitro gan Estyn. Ni fydd unrhyw ymweliadau monitro pellach gan Estyn mewn perthynas â'r arolygiad hwn.

Er mwyn gallu gwneud cynnydd pellach, efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi ac aelodau eraill y pwyllgor rheoli gael crynodeb ysgrifenedig o'u canfyddiadau.

Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

A1 Datblygu ymhellach weithdrefnau hunanarfarnu sy'n nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella yn glir, yn enwedig sicrhau bod arfarniadau mwy realistig o waith y lleoliad yn cynnwys cryfderau a meysydd i'w datblygu.

Mae'r lleoliad i raddau helaeth wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Mae gan y sefydliad weithdrefnau effeithiol ar gyfer hunanarfarnu. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn adnabod yn glir gryfderau'r lleoliad a'r meysydd sydd angen eu datblygu.

Mae'r lleoliad yn defnyddio canfyddiadau'r hunanarfarnu'n bwrpasol i gynllunio ar gyfer gwella. Mae cynllun gwella'r lleoliad yn cynnwys nodau clir, y camau i'w cymryd a'r sawl sy'n gyfrifol am eu gweithredu. Arenwir hefyd y gefnogaeth sydd ar gael, yr amserlen gweithredu a phwy fydd yn monitro ynghyd â'r meini prawf llwyddiant.

Er bod y drefn hon bellach yn weithredol ac yn sail dda ar gyfer gweithredu i'r dyfodol, serch hynny nid oes digon o fanylder bob tro ar rhai agweddau i'w datblygu ymhellach o fewn yr hunan arfarniad.

A2 Sicrhau bod tasgau'n cyfateb yn dda i allu'r plant a'u cyrhaeddiad blaenorol trwy ddefnyddio gwybodaeth asesu'n fwy effeithiol i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r plant.

Mae'r lleoliad wedi mynd i'r afael yn llawn â'r argymhelliad.

Gwneir defnydd da o'r adnoddau newydd brynwyd yn ddiweddar a pharheir i ddarparu her well i blant. Mae ymarferwyr yn ymyrryd yn briodol yn chwarae'r plant i ymestyn ac atgyfnerthu'r dysgu a chynnig cefnogaeth bwrpasol i unigolion.

Mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer asesu datblygiadau'r plant o fewn medrau penodol yn ogystal â datblygiadau cyffredinol. Defnyddir nodiadau gludiog i gofnodi cynnydd mewn medrau penodol. Mae'r nodiadau niferus hyn yn cael eu cynnwys o fewn proffiliau'r plant ac yn dangos yn datblygiad yn y medrau dros gyfnod o amser.

Erbyn hyn mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd priodol o'r deilliannau asesu ar gyfer blaen gynllunio. Mae'r cofnodion ar gefn taflenni asesu yn nodi'n glir yr hyn a ddysgwyd a'r camau nesaf ar gyfer datblygu'r medrau. Mae'r lleoliad yn llwyddiannus yn addasu'r ddarpariaeth o fewn yr ardaloedd dysgu ar gyfer ymateb anghenion unigolion.

Mae'r lleoliad yn parhau i gydweithio'n agos â Swyddog Datblygu Iaith Mudiad Meithrin ac mae'n gwneud defnydd da o'i gynllun iaith i wella defnydd yr ymarferwyr o'r Gymraeg. Mae'r ymarferydd cynorthwyol yn parhau i ddysgu Cymraeg ac yn hyderus yn ei defnydd o'r iaith gyda'r plant. Mae hyn yn sicrhau fod y ddau ymarferwr yn gallu ymateb i ymdrechion llafar y plant yn gyson ac yn effeithiol.

A3 Parhau i ddatblygu medrau sylfaenol ac allweddol y plant yn gynyddol a sicrhau bod adolygiadau cynllunio yn amlygu'r hyn y mae'r plant wedi'i ddysgu yn hytrach na'r hyn y maent wedi'i fwynhau.

Mae'r lleoliad wedi mynd i'r afael yn llawn â'r argymhelliad

Mae'r ymarferwyr yn parhau i gynllunio'n gydwybodol ar sail anghenion y plant. Mae cynllunio wythnosol yn briodol ac yn cynnig ffocws bwriadus ar ddatblygu medrau penodol. Erbyn hyn mae'r cynllunio yn cael ei arfarnu'n briodol gan nodi'r hyn weithiodd yn dda a beth y gellid ei wella ac addasiadau yn cael eu gwneud ar sail hyn.

Mae ardaloedd mwy deniadol wedi eu creu trwy fuddsoddiad sylweddol mewn adnoddau o safon uchel. Yn benodol crëwyd ardal ddistaw ar gyfer ymdrin â llyfrau ac ardal chwarae rôl. Mae'r rhain yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygu medrau'r plant yn gyffredinol ynghyd â sgiliau cyfathrebu yn benodol.

Yn ystod y sesiwn arsylwi gwelwyd fod y cynllunio yn dylanwadu yn effeithiol ar ansawdd y ddarpariaeth o fewn yr ardaloedd. Defnyddia'r ymarferwyr y camau cynllunio ar gyfer rhoi ffocws priodol i'r dysgu trwy ymyrraeth fwriadus yn unol ag anghenion unigolion. Yn aml gwelwyd ymarferwyr yn arwain y plant tuag at dasgau penodol yn effeithiol.

Argymhellion ar gyfer gwella

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r lleoliad:

- adeiladu ar y drefn o gofnodi gwerthusiadau, trwy gynnig mwy o fanylder am y camau pellach i'w cymryd; a
- sicrhau cysondeb yn natur y cofnodion a gedwir yn dilyn asesiadau.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes, Cadeirydd y PDBC GP, AGGCC ac arweinydd y cylch chwarae.

Yn gywir



Mererid Wyn Williams
Cyfarwyddwr Cynorthwyol

cc Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes
cc PDBC GP
cc AGGCC
cc arweinydd y cylch chwarae